# Dw i wrth fy modd ...





Dw i wrth fy modd yn gweld
golau melyn ar y goeden fawr, werdd
ac anrhegion mawr a bach mewn papur lliwgar.



Dw i wrth fy modd yn clywed
tân gwyllt swnllyd ar Noson Guto Ffowc
Crac! Whish! Bang!



Dw i wrth fy modd yn blasu
hufen iâ oer, oer ar ddiwrnod poeth, poeth
a'r siocled blasus yn torri'n ddarnau.



Dw i wrth fy modd yn teimlo
tedi mawr fflwffog yn y gwely
yn gynnes braf.



Dw i wrth fy modd yn arogli'r
blodau lliwgar
yng ngardd Nain.

Beca

| | | | |
|---|---|---|---|
| golau | lights | torri'n ddarnau | to break into pieces |
| werdd | green | fflwffog | fluffy |
| anrhegion | presents | yn gynnes braf | lovely and warm |
| tân gwyllt | fireworks | yng ngardd | in the garden of |
| swnllyd | noisy | Nain = Mam-gu | Granny |
| diwrnod | day | | |